

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**  
01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn 67 Bro Emrys, Talybont  
ar nos Iau 8 Mehefin, 2017 am 1900**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Y Cynghorydd Evan Jones

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd David Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

## **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. David Jones**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Jên Morris a Wyn Bowen Harris.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2017.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Sedd yn Corbri:** Y Cyng. David Jones a Kevin Williams yn hapus i wneud y gwaith pan yn gyfleus.

**Allt Tŷ'n Hendre**—teiars sydd wedi eu 'dympio'. Adroddwyd bod y teiars wedi mynd.

## **5. Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2017-18**

Etholwyd y Cyng. Evan Jones fel Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn

## **6. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Capel Bethlehem

£160.00

AON-yswiriant blynyddol

£470.09

## **7. Gohebiaeth**

**Cyflwynwyd**-e-bost gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru-ymgyngoriad cyhoeddus, datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub i'r dyfodol. Penderfynwyd bydd y Cadeirydd yn ymateb ar ran y Cyngor.

**Cyflwynwyd**- e-bost gan Cyfeillion Ysbyty Gwynedd –gwahoddiad i noson o ddiolchiadau. Y Cyng. Evan Jones am fynychu.

### **8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**

Dim i'w adrodd.

### **9. Penderfyniadau Cynllunio:**

**C17/0384/21/LL**

Ger y Llan, Ponc y Lon, Tal y Bont, Bangor

Addasiadau i'r tô er darparu grisiau, ystafell gawod a llofft ar y llawr cyntaf

**Penderfyniad:** Caniatwyd, gydag amodau

### **Ceisiadau Cynllunio:**

Dim ceisiadau i'w ystyried.

### **10. Cyfethol aelod i Llanllechid Isaf**

Penderfynwyd gyfethol Geraint Hughes i'r sedd wag.

### **11. Cytundeb y Setiwr**

Trafodwyd y gytundeb drafft. Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda'r bugail i drafod rhai addasiadau i'r gytundeb.

### **12. Tresbasu yn Ogwen Bank**

Adroddwyd bod cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn a trafferthion parcio yn Ogwen Bank.

Roedd y Cyngor yn cydymdeimlo, ond ddim yn siŵr beth fyddai'n gallu wneud i ddatrys y broblem. Penderfynwyd mai mater i'r Heddlu ac Adran Priffyrdd oedd hyn.

### **13. Materion Brys**

Adroddwyd bod tresbasu yn y goedwig uwchben Fferm Tŷ'n Hendre gan feicwyr sydd wedi creu trac yno. Roedd yr ambiwlans awyr wedi mynychu ar gyfer unigolyn oedd wedi cael damwain yno. Penderfynwyd hysbysu Stad Penrhyn o hyn.

Adroddwyd bod gwaith adeiladu yn mynd ymlaen yn 1 Maes y Groes, Talybont. Y Clerc i gysylltu a'r Adran Gynllunio i holi am unrhyw gais cynllunio.

Adroddwyd bod y cloddiau ger Ogwen Bank ac ar hyd y Lon Las wedi gordyfu. Y Clerc i gysylltu â Stad Penrhyn i'w hysbysu bod y gwrychoedd angen eu torri.

Adroddodd y Cyng. Evan Jones ei fod wedi ysgrifennu at Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn a sefyllfa siwms ac eogiaid yn yr afon yn dilyn y gwaith atal llifogydd, Y Cyngor yn gefnogol o'i sylwadau.

Y Ffurflen Flynyddol- Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

Diolchwyd i'r Cyng. Myfanwy Jones am gael cynnal y cyfarfod yn ei chartref.